CYHOEDDIAD, DOGFENNU

# Ffigurau perfformiad blynyddol Teuluoedd yn Gyntaf: adroddiad cryno 2018 i 2023

Adolygiad cryno o sut mae'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf wedi bod yn perfformio.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 13 Mawrth 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 13 Mawrth 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/ffigurau-perfformiad-blynyddol-teuluoedd-yn-gyntaf-adroddiad-cryno-2018-i-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


## 1. Cefndir

## 2. Y prif bwyntiau



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/ffigurau-perfformiad-blynyddol-teuluoedd-yn-gyntaf-adroddiad-cryno-2018-i-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# 1. Cefndir

**1.1** Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn rhaglen gan Lywodraeth Cymru i wella canlyniadau i blant, pobl ifanc a theuluoedd. Mae'n rhoi pwyslais ar ymyrryd yn gynnar, atal, a darparu cymorth i deuluoedd. Mae'r rhaglen yn hyrwyddo mwy o weithio amlasiantaethol i sicrhau bod teuluoedd yn gallu cael cymorth cyfannol pan fydd ei angen arnynt. Bwriad y rhaglen yw cynnig cymorth amserol i helpu i atal problemau o fewn teuluoedd rhag gwaethygu.

**1.2** Dyma brif elfennau Teuluoedd yn Gyntaf:

- Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd (JAFF) sy'n darparu gwerthusiad cynhwysfawr ar sail cryfderau o anghenion teuluoedd.
- Y Tîm o Amgylch y Teulu sy'n dwyn ynghyd ystod eang o weithwyr proffesiyno i weithio gyda theulu er mwyn eu helpu i fynd i'r afael â heriau.
- Prosiectau a gomisiynir yn strategol mewn ymateb i anghenion lleol a chymunedol a nodwyd.
- Ffocws ar anabledd. Disgwylir i ddyraniad o gyllid gael ei wario ar gymorth i deuluoedd sydd wedi'u heffeithio gan anabledd.

**1.3** Mae'r awdurdodau lleol yn casglu'r data gan ddefnyddio templed gan Lywodraeth Cymru ac yn eu hadrodd i Lywodraeth Cymru yn flynyddol. Mae'r data hyn yn cwmpasu cyfnod o 5 mlynedd ac felly'n cynnwys pandemig COVID-19 yn ogystal â blynyddoedd ar ôl y pandemig. Dylid nodi bod rhai o'r ffigurau wedi gostwng yn 2020/21. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd llawer o wasanaethau'n gweithredu ar lefel is ac yn fwy hyblyg er mwyn eu galluogi i ymdopi â'r gofynion newidiol a ddaeth yn sgil COVID-19.

**1.4** Yn ystod pandemig COVID-19, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau diwygiedig ar gyfer rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf i helpu gwasanaethau i barhau i weithredu i'r graddau yr oedd y trefniadau gweithio'n caniatáu. Diweddarwyd y canllawiau sawl gwaith drwy gydol y pandemig i sicrhau bod rhaglenni'n gallu

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ffigurau-perfformiad-blynyddol-teuluoedd-yn-gyntaf-adroddiad-cryno-2018-i-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

addasu i'r newidiadau yn y sefyllfa iechyd cyhoeddus yng Nghymru.

**1.5** Cafodd y gwaith casglu data ar gyfer y rhaglen ei oedi yn ystod 2019/20 a 2020/21 er mwyn helpu i ryddhau gwasanaethau i ganolbwyntio ar gefnogi anghenion eu cymunedau yn ystod cyfnod digynsail ac anodd. Casglwyd data ar gyfer y cyfnod hwn yn ôl-weithredol

# 2. Y prif bwyntiau

## Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd a'r Tîm o Amgylch y Teulu

**2.1** Mae nifer yr atgyfeiriadau ar gyfer Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd (JAFF) wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn (ar wahân i 2020/21, lle welwyd gostyngiad i 12,405), o 13,745 o atgyfeiriadau ledled Cymru yn 2018/19 i'r nifer uchaf o atgyfeiriadau a gofnodwyd erioed (19,685) yn 2022/23, sy'n gynnydd o 43%.

**2.2** Arweiniodd tua hanner yr atgyfeiriadau JAFF at deuluoedd yn cwblhau asesiad JAFF bob blwyddyn. Mae nifer yr asesiadau JAFF a gwblhawyd hefyd wedi cynyddu, o 7,645 yn 2018/19 i 11,095 yn 2022/23. Dyma'r nifer uchaf erioed o asesiadau JAFF a gofnodwyd ac mae'n gynnydd o 45% ers 2018/19. Yn ystod 2020/21 gostyngodd nifer yr asesiadau JAFF ychydig i 7,215, yn unol â'r gostyngiad yn nifer yr atgyfeiriadau.

**2.3** Mae nifer y Cynlluniau Gweithredu Tîm o Amgylch y Teulu (TAF) sydd wedi'u llofnodi wedi codi bob blwyddyn ers 2018/19, o 5,540 yn 2018/19 i 9,620 yn 2022/23, sef y nifer uchaf erioed, sy'n gynnydd o 74% dros y cyfnod hwnnw.

**2.4** Mae nifer y Cynlluniau Gweithredu TAF a gaewyd dros yr un cyfnod wedi codi bob blwyddyn ar wahân i gwymp bach yn 2020/21. Cafodd 5,370 o Gynlluniau Gweithredu TAF eu cau yn 2018/19, o'i gymharu ag 8,945 yn 2022/

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ffigurau-perfformiad-blynyddol-teuluoedd-yn-gyntaf-adroddiad-cryno-2018-i-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

23, sef y nifer uchaf a gofnodwyd erioed.

**2.5** Gwelwyd tueddiad tebyg o ran nifer y Cynlluniau Gweithredu TAF a gaewyd gyda chanlyniad llwyddiannus, gyda'r nifer yn codi o 3,280 yn 2018/19 i'r nifer uchaf erioed o 5,560 yn 2022/23. Yn 2022/23 caewyd tua 62% o Gynlluniau Gweithredu TAF gyda chanlyniad llwyddiannus. Mae hyn wedi parhau'n gymharol gyson, gyda rhwng 57% a 63% o Gynlluniau Gweithredu TAF wedi'u cau gyda chanlyniad llwyddiannus bob blwyddyn ers 2014/15.

## Mesurau perfformiad cenedlaethol

**2.6** Mae gan y rhaglen gyfres o Fesurau Perfformiad Cenedlaethol i helpu i ddarparu rhagor o dystiolaeth o effaith y rhaglen ar draws Cymru, yn enwedig mewn perthynas â'r prosiectau strategol. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol adrodd ar mesurau hynny sy'n berthnasol i gyflawni'r rhaglen yn eu hardal nhw yn unig.

**2.7** Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu diffiniadau o'r Mesurau Perfformiad Cenedlaethol a rhai enghreifftiau o dystiolaeth ar gyfer marcio unigolion yn llwyddiannus yn eu herbyn.  Nid yw'r enghreifftiau hyn yn gynhwysfawr ac felly mae'r mesurau o lwyddiant yn erbyn y Mesurau Perfformiad Cenedlaethol yn oddrychol i bob awdurdod lleol ac nid yw pob awdurdod lleol yn adrodd yn erbyn pob mesur perfformiad, a gellir adrodd ar unigolion yn erbyn mwy nag un mesur perfformiad.

**2.8** Rhwng mis Ebrill 2018 a mis Mawrth 2023, gwelwyd tuedd ar i lawr yng nghanran y cyfranogwyr llwyddiannus a adroddwyd yn erbyn y Mesurau Perfformiad Cenedlaethol. Fodd bynnag, mae o leiaf 50% o'r rhai a adroddwyd yn erbyn pob mesur perfformiad wedi'u hadrodd yn gyfranogwyr llwyddiannus.

**2.9** Mae nifer y bobl mae Teuluoedd yn Gyntaf yn eu hadrodd yn erbyn y Mesurau Perfformiad Cenedlaethol hyn bellach ar ei uchaf erioed yn ôl ein


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ffigurau-perfformiad-blynyddol-teuluoedd-yn-gyntaf-adroddiad-cryno-2018-i-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

cofnodion, ar ychydig dros 163,000 yn 2022/23. Sylwch y gellir adrodd ar unigolion yn erbyn mwy nag un mesur perfformiad. Felly, gall y ffigur hwn gynnwys elfen o gyfrif ddwywaith, ond mae'n dal i ddangos yn effeithiol gyrhaeddiad sylweddol y rhaglen.

**2.10** Yn 2022/23 y Mesur Perfformiad Cenedlaethol gyda'r nifer uchaf o gyfranogwyr llwyddiannus oedd gwell llesiant emosiynol/meddyliol, ar 23,292. Y mesur perfformiad gyda'r gyfran uchaf o lwyddiant oedd rhieni sy'n elwa ar ymyrraeth rhianta (86%).

**2.11** Mae'r ffigur isod yn dangos nifer y cyfranogwyr a gymerodd ran a nifer y cyfranogwyr llwyddiannus a adroddwyd yn erbyn pob mesur perfformiad cenedlaethol yn 2022/23. Caiff y rhain eu dangos o'r mesur perfformiad sydd â'r nifer uchaf o gyfranogwyr llwyddiannus i'r mesur â'r nifer isaf o gyfranogwyr llwyddiannus.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ffigurau-perfformiad-blynyddol-teuluoedd-yn-gyntaf-adroddiad-cryno-2018-i-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.




**Ffigur 1.0 – Graff o gyfranogwyr yn erbyn Mesurau Perfformiad Cenedlaethol Teuluoedd yn Gyntaf, 2022/23**

## Materion ansawdd data

**2.12** Cafodd y gwaith o gasglu data monitro Teuluoedd yn Gyntaf ei oedi ym mis Mawrth 2020 oherwydd pandemig COVID-19, a chasglwyd data ar gyfer 2019/20 a 2020/21 yn ôl-weithredol. O ganlyniad, nid oedd modd i bob awdurdod lleol gasglu pob eitem ddata yn gallu gan bob awdurdod lleol. Mae'r gwerthoedd coll yn y tablau cysylltiedig yn cael eu dynodi gan [x]. Dylid dehongli'r ffigurau o'r blynyddoedd hyn yn ofalus.

**2.13** Oherwydd newidiadau / problemau gyda systemau casglu data, nid oedd pob awdurdod lleol wedi gallu casglu gwybodaeth am elfen proffil anabledd rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ffigurau-perfformiad-blynyddol-teuluoedd-yn-gyntaf-adroddiad-cryno-2018-i-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**2.14** Cesglir data ychwanegol ar unigolion sy'n cyrchu prosiectau a gomisiynwyd gan y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf. Nid yw'r data hyn wedi'u cynnwys yn y cyhoeddiad hwn oherwydd pryderon ynghylch ansawdd y data.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/ffigurau-perfformiad-blynyddol-teuluoedd-yn-gyntaf-adroddiad-cryno-2018-i-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.